OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1999 (Cy. 200)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 108(2)(b)(iii) a (3)(c) o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi drwy Orchymyn drefniadau asesu mewn cysylltiad â'r cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir wneud trefniadau i bob disgybl yn y cyfnod sylfaen gael ei asesu drwy gydol y flwyddyn gan athro neu athrawes at y diben o fonitro a chefnogi cynnydd addysgol y disgybl mewn cysylltiad â'r rhaglenni addysgol y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 1 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013") (erthygl 3).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir wneud trefniadau i bob disgybl yn yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol gael ei asesu drwy gydol y flwyddyn gan athro neu athrawes at y diben o fonitro a chefnogi cynnydd addysgol y disgybl mewn cysylltiad â'r rhaglenni astudio y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 2 o Orchymyn 2013 (erthygl 4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1999 (Cy. 200)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Gorffennaf 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *28 Gorffennaf 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 108(2)(b)(iii) a (3)(c) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002([1]) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy([2]) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014 a daw i rym ar 1 Medi 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y meysydd dysgu perthnasol" ("*the relevant areas of learning*") yw—

(a) sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; a

(**1**) 2002 p. 32.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr adrannau yn Neddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(b) datblygiad mathemategol;

ystyr "y pynciau perthnasol" ("*the relevant subjects*") yw—

(a) Saesneg;

(b) Cymraeg; ac

(c) Mathemateg;

ystyr "y rhaglenni addysgol" ("*the educational programmes*") yw'r rhaglenni addysgol hynny y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 1 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013(**1**); ac

ystyr "y rhaglenni astudio" ("*the programmes of study*") yw'r rhaglenni astudio hynny y rhoddwyd effaith gyfreithiol iddynt gan Ran 2 o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at y cyfnod sylfaen i'w ddehongli yn unol ag adran 102 o Ddeddf Addysg 2002.

(3) Mae unrhyw gyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103(1)(b) ac (c) o Ddeddf Addysg 2002.

**Asesiad Athro neu Athrawes: y cyfnod sylfaen**

**3.** Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i bob disgybl yn y cyfnod sylfaen gael ei asesu drwy gydol y flwyddyn gan athro neu athrawes at y diben o fonitro a chefnogi cynnydd addysgol y disgybl mewn perthynas â'r rhaglenni addysgol ar gyfer y meysydd dysgu perthnasol.

**Asesiad Athro neu Athrawes: yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol**

**4.** Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i bob disgybl yn yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol gael ei asesu drwy gydol y flwyddyn gan athro neu athrawes at y diben o fonitro a chefnogi cynnydd addysgol y disgybl mewn perthynas â'r rhaglenni astudio ar gyfer y pynciau perthnasol.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
23 Gorffennaf 2014

(**1**) O.S. 2013/434 (Cy. 52).